# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Preswyl The Nash**

**Cartref Preswyl The Nash**
**10-12**
**Churton Road**
**Y Rhyl**
**LL18 3NB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

23/01/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Preswyl The Nash

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | NASH CORPORATE SERVICES LIMITED |
| Lleoedd cofrestredig | 31 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 29 Medi 2022 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael yng nghartref preswyl The Nash. Mae'r gweithwyr gofal yn dangos dealltwriaeth dda o anghenion y bobl ac maent yn ymateb i geisiadau'r bobl am gymorth mewn modd amserol. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Fodd bynnag, nid ydynt yn gywir bob amser ac nid yw'r asesiadau risg sydd ar waith yn gyfredol bob amser.

Mae'r staff yn teimlo bod y tîm rheoli yn eu cefnogi, ond ni chaiff gwiriadau cyn cyflogi eu cwblhau yn llawn bob amser, ac nid yw'r hyfforddiant diweddaraf ar gael i'r staff bob amser. Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi cwblhau ymweliadau rheolaidd â'r gwasanaeth i adolygu ansawdd y gofal a ddarperir.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod; serch hynny, nid yw'r gweithdrefnau rheoli a rhoi meddyginiaeth yn dilyn canllawiau arfer gorau. Mae hyn yn peryglu iechyd a llesiant y bobl.

Mae'r amgylchedd yn fawr ac mae ystafelloedd gwely'r bobl wedi'u haddurno ag eitemau personol. Mae angen gwneud gwelliannau i sicrhau y caiff gwiriadau iechyd a diogelwch eu cwblhau yn rheolaidd mewn perthynas â phrosesau hylendid a rheoli heintiau effeithiol.

## Llesiant

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch a chânt eu cefnogi i wneud pethau sydd o bwys iddynt. Mae'r staff gofal yn ymwybodol o ddewisiadau'r bobl ac mae'r bobl yn teimlo'n hyderus i siarad â'r staff a'r tîm rheoli. Roedd un person yn canmol y tîm rheoli gan ddweud, *"I can speak to the manager at any time with anything."* Gall y bobl ddewis ble i dreulio eu hamser a beth yr hoffent ei wneud. Gwelsom weithgareddau amrywiol yn cael eu cynnal yn ystod yr arolygiad, yr oedd llawer o'r preswylwyr yn mwynhau cymryd rhan ynddynt. Roedd yn well gan eraill beidio â chymryd rhan, ac roedd eu lleisiau yn cael eu clywed a'u parchu gan y staff gofal a'r rheolwr.

Nid yw anghenion gofal a chymorth y bobl yn gwbl hysbys cyn iddynt gael eu derbyn i'r gwasanaeth, ac nid yw'r cynlluniau personol yn fanwl bob amser. Mae hyn yn golygu na all y bobl fod yn hyderus bob amser fod y staff yn ymwybodol o'u hanghenion gofal a chymorth. Gwelsom y staff gofal yn darparu cymorth mewn ffordd ofalgar, hamddenol ac amserol. Mae'r staff gofal yn gyfarwydd â hoff bethau a chas bethau'r preswylwyr. Gall y bobl ddewis ble i fwyta eu prydau. Esboniodd un person, *"It depends how I'm feeling on the day, I'll eat in the lounge, dining room or my bedroom. The food is very good with good choice and plenty of it".* Mae arferion meddyginiaeth anghyson yn golygu na all y bobl fod yn hyderus bod eu meddyginiaeth yn cael ei rhoi fel y'i rhagnodwyd, a fydd yn effeithio ar sut y caiff cyflyrau iechyd y bobl eu rheoli.

Caiff pawb eu hannog i feithrin a chynnal cydberthnasau cymdeithasol yn y cartref. Nododd y bobl fod aelodau o'u teulu a'u ffrindiau yn ymweld yn rheolaidd ac y gallant fynd allan i'r gymuned am y diwrnod gyda'u teulu.

Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Maent yn cael eu hatgyfeirio at wasanaethau iechyd ac yn gweld gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol mewn modd amserol. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau ac maent yn hyderus i chwythu'r chwiban. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar Ddiogelu, Chwythu'r Chwiban a hyfforddiant gorfodol arall, er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn meddu ar wybodaeth a sgiliau cyfredol wrth gefnogi'r bobl yn y cartref. Nid yw'r gwiriadau addasrwydd cyn cyflogi yn cael eu cwblhau'n llawn, sy'n golygu bod y bobl yn wynebu risg. Mae hyn yn effeithio ar iechyd a llesiant y bobl, ac yn peri risg iddynt ac, felly, rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Mae amgylchedd y cartref yn helpu pobl sy'n byw gyda dementia i gyflawni safon dda o lesiant. Mae'r ystafelloedd wedi'u personoli â dodrefn sy'n addas i'w hanghenion. Mae'r cartref yn ddiogel, gyda bysellbad â chod ar ddrws y fynedfa, ac mae'n rhaid i bob ymwelydd gofrestru wrth gyrraedd. Ni chaiff risgiau yn yr amgylchedd eu rheoli mewn ffordd ragweithiol bob amser, sy'n golygu na chaiff iechyd a diogelwch y bobl eu hamddiffyn yn llawn.

## Gofal a Chymorth

Gwnaethom adolygu ffeiliau'r preswylwyr a gwelsom nad yw asesiadau cyn derbyn yn cael eu cwblhau bob amser cyn i bobl symud i'r cartref. Mae angen gwneud gwelliannau i sicrhau y caiff pob preswylydd newydd asesiad cyn derbyn llawn er mwyn sicrhau y cesglir gwybodaeth am anghenion y bobl, y ffordd orau o ddiwallu eu hanghenion a ph'un a all y gwasanaeth ddiwallu eu hanghenion. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl ac, felly, rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth.  Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau y caiff dymuniadau a dyheadau personol y bobl eu hystyried wrth ddarparu gofal a chymorth. Mae angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod unrhyw newid i anghenion y bobl yn cael ei ddogfennu a'i adolygu'n rheolaidd. Dylai asesiadau risg priodol fod ar waith i gofnodi sut y caiff risgiau a nodwyd i ddiogelwch y bobl eu rheoli. Gwnaethom adolygu cofnodion un person a gwelsom nad yw manylion anafiadau yn cael eu cofnodi yng nghynlluniau personol y bobl bob amser ac nid oedd yr un o'r asesiadau risg a welwyd yn nodi sut i reoli ac atal anafiadau pellach. Roedd gwybodaeth anghyson wedi'i chofnodi yn y cynllun personol, er enghraifft roedd teimlad bwyd penodol wedi'i gofnodi yng nghynllun personol un person, ond roedd teimlad arall wedi'i gofnodi yn asesiad risg yr un person. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl ac, felly, rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth.  Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Gwnaethom siarad â llawer o bobl sy'n byw yng nghartref The Nash ac roedd pob un ohonynt yn canmol natur y staff. Roedd y disgrifiadau yn cynnwys *“wonderful”*, *“brilliant”* a *“lovely”*. Dywedodd y bobl wrthym fod y staff yn gwrando arnynt pan fyddant yn gwneud dewisiadau am eu bywyd pob dydd. Mae un person yn mwynhau gwneud croeseiriau ac mae'r staff yn sicrhau bod posau'n cael eu hargraffu a'u darparu'n ddyddiol.

Dywedodd y teuluoedd y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu yn y gwasanaeth, y gallant ymweld yn aml a'u bod yn fodlon ar y gofal a ddarperir i'w perthynas. Gwelsom ffolder canmoliaethau a oedd yn cynnwys sawl cerdyn diolch â negeseuon i'r staff.

Ymgynghorir â'r bobl ac maent yn cael cymorth gan asiantaethau ac arbenigwyr perthnasol pan fo angen. Dywedodd y rheolwr fod ganddo gydberthynas dda â'r nyrsys ardal sy'n darparu cyngor arbenigol ychwanegol i gefnogi'r gofal. Caiff apwyntiadau yn yr ysbyty eu trefnu a'u mynychu'n briodol, a bydd y rheolwr yn mynd gyda'r preswylwyr i apwyntiadau meddygol i'w cefnogi.

Mae angen gwella'r systemau a'r prosesau ar gyfer rhoi meddyginiaeth gan nad yw'r staff yn dilyn y canllawiau arfer gorau cenedlaethol presennol. Gwelsom ddulliau cadw cofnodion anghyson yn y siartiau'r Cofnodion Rhoi meddyginiaeth (MAR). Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl ac, felly, rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

## Yr Amgylchedd

Mae amgylchedd y cartref gofal yn groesawgar ac yn gyfforddus. Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu darparu mewn amgylchedd sydd â chyfleusterau a chyfarpar i gefnogi canlyniadau personol y bobl. Mae amrywiaeth o gyfarpar ar gael yn y cartref i ddiwallu anghenion y bobl, gan gynnwys cadeiriau, gwelyau a theclynnau codi arbenigol a gaiff eu gwasanaethu'n rheolaidd. Gwelsom gyfarpar sy'n addas i bobl â dementia yn y cartref, arwyddion dwyieithog clir, a drysau lliw gwahanol ar yr ystafelloedd gwely. Caiff gweithiwr cynnal a chadw rhan-amser ei gyflogi yn y cartref i ymdrin ag unrhyw faterion cynnal a chadw.

Mae trefniadau rheoli heintiau ar waith i sicrhau y caiff gwastraff clinigol ei waredu'n rheolaidd ac yn ddiogel a chaiff cofnod glanhau dyddiol ei gwblhau a'i lofnodi gan y staff. Ceir cyflenwad digonol o gyfarpar diogelu personol yn y cartref; fodd bynnag, roedd rhai gorsafoedd diheintio yn wag, gwelwyd bod rhai archwiliadau rheoli heintiau yn hen, ac nid oedd caeadau ar finiau cymunedol mewn ystafelloedd ymolchi a thoiledau er mwyn lleihau'r risg o heintiau.

Mae'r mwyafrif o'r gwiriadau iechyd a diogelwch yn gyfredol, heblaw am yr adroddiad ar brofion legionella. Caiff y larymau tân eu profi'n wythnosol. Gwnaethom nodi peryglon iechyd a diogelwch yn ystod ein hymweliadau a oedd yn peri risg i ddiogelwch y bobl. Roedd hyn yn cynnwys ystafell golchi dillad heb ei chloi, nifer annigonol o gyfyngwyr ar y ffenestri uwchben y llawr gwaelod, ac roedd y cod ar gyfer y bysellbad i fynd i mewn i'r gegin wedi'i ysgrifennu ar y wal wrth ymyl y bysellbad. Roedd hyn i gyd yn rhoi'r bobl mewn perygl. Nodwyd bod y tymheredd mewn rhai ystafelloedd yn oer a dywedodd preswylwyr eu bod yn teimlo'n oer yn eu hystafelloedd gwely. Mae hyn yn effeithio ar iechyd a llesiant y bobl, ac yn peri risg iddynt ac, felly, rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Mae dwy lolfa ar gael i'r bobl eistedd a chymdeithasu. Esboniodd y rheolwr fod cynlluniau ar waith i uwchraddio'r ardal fwyta yn y dyfodol agos. Mae darparwr y gwasanaeth wedi lliniaru risgiau i iechyd a diogelwch drwy drefnu ardal smygu awyr agored ddynodedig yng nghefn yr adeilad i bobl sy'n dymuno smygu. Esboniodd y rheolwr fod y staff gofal yn cefnogi'r holl breswylwyr sy'n dewis mynd allan i smygu er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn ddiogel.

Cynhaliodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd arolygiad hylendid bwyd yn y cartref ar 25 Ebrill 2022. Rhoddwyd sgôr hylendid bwyd o 4 allan o 5, sef gradd ‘da’, i gartref gofal The Nash.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r rheolwr yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi gan yr Unigolyn Cyfrifol. Roedd y staff yn canmol yr Unigolyn Cyfrifol ac yn dweud ei fod yn hawdd mynd ato. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus yn gweithio yn y cartref a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Mae'r staff yn ymgymryd â hyfforddiant gorfodol ond nid ydynt yn cael cynnig hyfforddiant gloywi pan fo angen hyn. Gwelsom y matrics hyfforddiant a oedd yn dangos nad oedd hyfforddiant gorfodol na hyfforddiant ychwanegol arall y rhan fwyaf o'r staff yn gyfredol. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl ac, felly, rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth.  Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Yn ystod yr arolygiad, roedd digon o staff ar gael ym mhob rhan o'r cartref. Caiff cyfarfodydd staff rheolaidd eu trefnu lle caiff y staff gyfle i drafod unrhyw faterion â'r tîm rheoli. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo bod y tîm rheoli yn gwrando arnynt yn ystod y cyfarfodydd hyn.  Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio un i un gyda'r tîm rheoli hefyd, a gwnaethant ddweud bod y sesiynau hyn yn ddefnyddiol i drafod unrhyw feysydd sy'n peri pryder o ran eu hyder.

Nid yw'r gwasanaeth bob amser yn cynnal gwiriadau llawn mewn perthynas ag addasrwydd staff i weithio gyda phobl agored i niwed cyn iddynt ddechrau gweithio yn y gwasanaeth. Gwnaethom edrych ar ffeiliau dau aelod o'r staff a gwelsom nad oedd geirdaon wedi cael eu casglu fel rhan o'r gwiriadau cyn cyflogi. Gwnaethom hefyd edrych ar fatrics y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gwelsom fod dyddiad adnewyddu dau aelod o'r staff wedi mynd heibio. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y bobl ac, felly, rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth.  Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 36 | Nid yw'r staff yn cael yr hyfforddiant diweddaraf i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref. Sicrhau bod y staff yn cael yr hyfforddiant diweddaraf yn rheolaidd. Nid yw'r mwyafrif o'r staff wedi cael eu harfarniad blynyddol. | Newydd |
| 35 | Nid yw darparwr y gwasanaeth yn sicrhau y cesglir geirdaon ar gyfer staff cyn iddynt ddechrau eu cyflogaeth. Nid yw darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod gwiriadau'r staff gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol. | Newydd |
| 58 | Mae angen gwella systemau a phrosesau ar gyfer rhoi a chofnodi meddyginiaeth gan nad yw'r staff yn | Newydd |

| | | |
|---|---|---|
| | dilyn y canllawiau arfer gorau cenedlaethol cyfredol. | |
| 57 | Nid yw darparwr y gwasanaeth yn nodi risgiau i iechyd a diogelwch y bobl ac nid yw'n rhoi mesurau effeithiol ar waith i leihau risgiau cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol. | Newydd |
| 15 | Nid yw'r cynlluniau personol bob amser yn nodi'r camau i'w cymryd i liniaru unrhyw risgiau a nodwyd i lesiant y bobl. | Newydd |
| 14 | Ni chaiff asesiadau cyn derbyn eu cwblhau ar gyfer pob preswylydd cyn iddo gael ei dderbyn i'r cartref. Rhaid i'r darparwr sicrhau y caiff asesiadau cyn derbyn eu cwblhau cyn i bobl gael eu derbyn i'r cartref gofal er mwyn sicrhau y gall y cartref ddiwallu eu hanghenion yn ddiogel. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 73 | Nid yw’r Unigolyn Cyfrifol wedi ymweld â’r cartref bob tri mis o leiaf. Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol ymweld â'r gwasanaeth bob tri mis o leiaf, cyfarfod â'r staff a chofnodi tystiolaeth o'r ymweliad a thrafodaethau yn yr adroddiad. | Newydd |
| 80 | Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi gwneud darpariaeth i ansawdd y gofal a’r cymorth gael ei adolygu o leiaf bob chwe mis. | Newydd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 29/03/2023